# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 20 Hydref 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, D. Jones, H.I. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a/ac J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr C.A. Davies mewn perthynas â chais cynllunio PL/00101
Y Cynghorwyr H.A.L. Evans mewn perthynas â chais cynllunio W/39346

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.M. James, Swyddog Rheoli Datblygu [y De]
H. Rice, Swyddog Rheoli Datblygu
K Phillips, Swyddog Rheoli Datblygu
R. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu [De]
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner, Swyddog Technegol
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod -. - 10.00 yb - 12.40 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd C. Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. YSTRIED ADRODDIADAU'R PENNAETH CYNLLUNIO YNGHYLCH Y CEISIADAU CYNLLUNIO CANLYNOL [YR YMWELODD Y PWYLLGOR A'U SAFLEOEDD YN FLAENOROL] A PHENDERFYNU AR Y CEISIADAU

SYLWER: Cafodd yr eitem hon ei chynnwys ar yr agenda drwy gamgymeriad.

## 4. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/38200** | **Adeiladu un breswylfa ar dir y tu ôl i Heddfryn, Llansadwrn, Llanwrda** |

## 5. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/00031** | **Darparu drws a ffenestr newydd ym mlaen yr eiddo ac ychwanegu system echdynnu dur di-staen i'r cefn mewn cysylltiad â Siop Cludfwyd Twrcaidd newydd yng Ngwesty'r Cambrian, 35 Stryd y Môr, Llanelli, SA15 2NP** |
| **PL/00354** | **Amrywiad i Amod 2 o S/26201 i ddiwygio'r cyfnod caeedig ar gyfer 10 llain o 5 Ionawr i 1 Mawrth bob blwyddyn – Fferm Llwynifan, Safle Carafannau, Heol Troserch, Llangennech, Llanelli, SA14 8AX** |

## 6. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**6.1 PENDERFYNWYD bod y cais cynllunio canlynol yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a nodir yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu a adroddwyd yn y cyfarfod ac i gwblhau'r Asesiad Priodol ar gyfer Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi a'r ymgeiswyr i ymrwymo i Gytundeb Adran 106:-**

| | |
|---|---|
| **W/39346** | **Datblygiad Un Blaned a newid o ddefnydd coedwigaeth i ddefnydd preswyl a choedwigaeth, Flatwood, Castellnewydd Emlyn, SA38 93B**<br><br>Gwnaed sylw gan yr Aelod lleol yn gwrthwynebu'r datblygiad am nifer o resymau gan gynnwys y canlynol:-<br>• Byddai'n cael effaith andwyol ar y goedwig a'i bywyd gwyllt<br>• Gallai ansawdd y pren yn y goedwig arwain at yr angen i fewnforio pren ar gyfer y busnes arfaethedig<br>• Y posibilrwydd i lifogydd ddigwydd o'r tir serth. Nid oedd modd dangos yn ddigonol pa mor serth yw'r tir drwy luniau Drôn.<br>• Efallai nad ystyrir bod ansawdd y dŵr o'r cyrsiau dŵr yn addas i'w yfed ac efallai y bydd angen cysylltiad â'r prif bibell dŵr sy'n croesi'r safle<br>• Pryder ynghylch y posibilrwydd o halogi o'r toiledau compost sych<br>• Byddai angen dod â bwyd i'r safle ar gyfer yr anifeiliaid |

| | |
|---|---|
| | • Roedd preswylfa i'w hadeiladu yng nghefn gwlad heb brofi hyfywedd ariannol ymlaen llaw.<br>• byddai plannu coed i gymryd lle'r rhai a gafodd eu cwympo yn cymryd blynyddoedd lawer i aeddfedu<br>• lefelau golau annigonol yn y goedwig i dyfu cnydau<br>• nid ystyriwyd bod y datblygiad yn hyfyw.<br><br>Ymatebodd y Pennaeth Cynllunio a'r Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd |

**6.2 PENDERFYNWYD**

**6.2.1 bod cais cynllunio PL00101 yn cael ei gymeradwyo, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio i'w wrthod, gan yr ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â Pholisïau GP1, H1, H2 a TR3 y Cynllun Datblygu Lleol yn ogystal â TAN 22 ac ystyrir bod y breswylfa'n gydnaws â byngalos o faint tebyg yn y gymuned leol.**

**6.2.2 Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cynllunio i atodi amodau priodol i'r hysbysiad caniatâd cynllunio**

| | |
|---|---|
| **PL/00101** | **Preswylfa unllawr newydd, Brodawel, Llanarthne, Caerfyrddin, SA32 8JD**<br><br>Gwnaed sylw gan yr Aelod lleol yn cefnogi'r cais gan ei bod o'r farn bod y cais yn dod o fewn y diffiniadau o Bolisïau GP1, H1, H2 a TR3 o'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â darpariaethau TAN 22. Er mwyn esbonio, ystyriwyd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gydnaws ag eiddo o faint tebyg yn yr ardal o ran ei faint a'i leoliad i'r eiddo presennol. Byddai'n arwain at ddarparu lleoedd parcio oddi ar y ffordd, diogelu coed a datblygu eiddo sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn lle'r eiddo di-raen presennol. |

## 7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8FED HYDREF, 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 8 Hydref 2020 yn gofnod cywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r*

*cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]